

Casia Wilam



Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Yn Llangefni nes oeddwn i'n chwech, ac wedyn yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Gynradd Nefyn ac yna Ysgol Uwchradd Botwnnog.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoff iawn o gacen sbwng siocled efo cwstard siocled yn y cantîn, ac yn mwynhau cael ysgrifennu straeon a darllen nofel ar y cyd fel dosbarth, a chwarae rownders.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Awdur a cheidwad sw!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Dwi'n cofio gwirioni ar *Y Gwningen yn Cipro'r Tân*, ac yna *Gwe Gwenhwyfar*. W, a holl lyfrau Elgan Philip Davies hefyd, a llyfrau Judy Blume. Lot o ffefrynnau.

Beth yw eich diddordebau?

Crwydro, bwyta, a chwarae gyda fy meibion, Caio a Deri.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Bore braf a chynnes a'r adar yn canu. Dwi ddim yn licio'r gaef.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Pobl ddim yn rhoi cŵn ar dennyn pan maen nhw fod ar dennyn.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Dwi wedi ysgrifennu erioed, yn llun a stori neu'n ddyddiadur neu benillion bach. Doedd o erioed yn benderfyniad penodol a dweud y gwir, jest dyna dwi'n ei wneud!

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Ar hyn o bryd mae'r plant yn rhoi llawer o syniadau i mi. Yn 7 a 3 oed maen nhw'n llawn dychymyg ac yn meddwl am bethau gwych a gwallgo. Dwi'n aml yn benthyc eu syniadau!

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Dwi'n hoff o sgwennu am bobl a chymeriadau, a dweud y gwir, yn fwy na themâu neu bynciau arbennig.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Ceisiwch ysgrifennu fel eich hoff awdur, ac yna daliwch ati i ysgrifennu, nes dod o hyd i'ch llais eich hun.

Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Gorau: rhywun yn dweud eu bod wedi mwynhau un o fy llyfrau. Gwaethaf: lot fawr o oriau ar ben fy hun gyda neb ond y laptop yn gwmni.

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Y Gwningen yn Cipro'r Tân.

Hoff gymeriad o lyfr?

Jini Mê.

Hoff le?

Traeth Dinas Dinlle.

Hoff fwyd?

Salad. Jôc! Cacen siocled.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Moana.

Hoff air?

Pendwmpian.

Superpower o ddewis?

Rhewi amser.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Clywed fy meibion yn chwerthin o'u boliau.

Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Rhedeg caffi.

Top tip i ddarpar awduron:

Cadwch nodiadur; tydi syniadau ddim yn aros yn eich pen am byth!